Fferm Archebu

Sut i ddangos yr arwyddion

- Mae taflenni cyngor gan eich Swyddog Coetiroedd – gofynnwch am gael eu gweld.
- Defnyddiwch y mesuriadau a nodir yn y daflen hon bob tro ac yn y taflenni cynghori.
- Ystyriwch ddefnyddio pren lleol i wneud pyst fel eu bod yn cydweddu â'r coetir.
- Er mwyn cael yr effaith orau, defnyddiwch bren naturiol wedi'i lifio a'i drin o dan bwysau fel ei fod yn para.
- Os ydych yn defnyddio staen ar gyfer y pren defnyddiwch liw sy'n adlewyrchu'r amgylchedd - lliw brown golau i adlewyrchu cynhesrwydd pinwydd yr Alban neu lwyd golau i adlewyrchu lliw rhisgl coed bedw a'r garreg leol - ond mae defnyddio pren naturiol yn haws.
- Gosodwch y disgiau ar byst sgwâr neu, os oes yn well gennych, ar byst crwn wedi'u torri ar oleddf.



Arwyddion Mynediad - defnyddiwch 2, 4, 6 a 8 ar glwydi ac adeiladau ac 1, 3, 5 a 7 ar byst.

Arwyddion Ychwanegol - gosodwch y disgiau (9 a 10) ar byst sgwâr neu byst crwn.

Cynnal a chadw'r arwyddion

- Edrychwch ar yr arwyddion yn rheolaidd.
- Sychwch hwy o bryd i'w gilydd â chlwtyn llaith.
- Gofalwch fod y pyst, y clwydi ac unrhyw beth arall y gosodir arwyddion arnynt mewn cyflwr da er mwyn rhoi'r argraff iawn i bobl.
- Ailosodwch arwyddion sydd wedi'u fandaleiddio neu wedi'u difrodi yn ddi-oed - gofynnwch i'r Swyddfa Gadwraeth am ragor.

Beth nesaf?

CADW MEWN CYSYLLTIAD

Rydym wrthi'n gwneud rhestr gynhwysfawr o enghreifftiau o arferion da. Mae gennym gryn dipyn o wybodaeth ar sut i estyn croeso i bobl - yn enwedig ar gyfer mynediad mwy helaeth i goetiroedd neu gynlluniau hamddena.

O bryd i'w gilydd, byddwn yn cynnal digwyddiadau hyfforddi ar gyfer mynediad i goetiroedd a hamddena. Os hoffech i ni ychwanegu eich enw at ein rhestr bostio, yna rhowch wybod i'ch Swyddog Coetiroedd.

Rydym yn trafod gyda phrif asiantaethau cefn gwlad eraill, trwy Rwydwaith Gweithgareddau Hamdden Cefn Gwlad ynghylch y ffordd orau i roi cyhoeddusrwydd i fynediad. Os oes gennych syniadau am sut y gellir gwella pecyn "Croeso i Gerddwyr" rhowch wybod i ni.

AM RAGOR O WYBODAETH

Am ragor o gyngor a gwybodaeth cysylltwch â'ch Swyddog Coetiroedd. Dau gyhoeddiad sy'n cynnwys cyngor a fydd o gymorth yw: Forest Recreation Guidelines - Forestry Commission, 1992, HMSO, London. The Public in your Woods - Irving, J., 1985, Land Decade Educational Council, Packard Publishing Limited, Chichester.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Forestry Commission IB28/1(WW)-GLD-MDA -1k Nov '04. © Crown Copyright FCCS437

CROESO I GERDDWYR!

Mynediad i Goetiroedd a Chynllun Grant Coetiroedd

WOODLAND GRANT SCHEME
WGS

Mae'r daflen hon yn disgrifio'r pecyn "Croeso i Gerddwyr" mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn ei roi i'r rhai hynny sy'n croesawu'r cyhoedd i gerdded drwy eu coetiroedd.

Grantiau ar gyfer darparu mynediad i goetiroedd

Mae Cynllun Grant Coetiroedd (WGS) yn cynnig y grantiau canlynol i berchnogion coetiroedd sy'n croesawu'r cyhoedd i'w coedwigoedd.

CYFRANIAD COETIR CYMUNEDOL

Mae Cyfraniad Coetiroedd Cymunedol ar gael i annog pobl i greu coetiroedd newydd ger cymunedau, y gellir eu defnyddio gan y cyhoedd ar gyfer hamddena anffurfiol.

GRANT RHEOLI BLYNYDDOL

Mae Grant Rheoli Blynyddol (AMG) ar gael i gyfrannu at ran o gost y gwaith i greu, cynnal a chadw neu wella mynediad y cyhoedd i goetiroedd. Gallwn dalu AMG ar gyfer mynediad cyhoeddus cyn belled ag y bo'r cyhoedd yn gwneud digon o ddefnydd o'r coetir i gyfiawnhau talu'r grant. Disodlodd yr AMG y Grant Rheoli Arbennig ym 1994.

GRANT GWELLA COETIROEDD

Taliad dewisol yw Grant Gwella Coetiroedd (WIG) i helpu gwella coedwigoedd os ydych yn ymwneud â phrosiectau arbennig mewn ardaloedd dewisedig. Gall hyn gynnwys darparu mynediad i'r cyhoedd. Gall eich Swyddfa Warchodaeth leol roi gwybod i chi a oes prosiect WIG ar waith yn eich ardal.

Estyn croeso i gerddwyr

EIN PECYN "CROESO I GERDDWYR"

Os ydych am gymorth grant o dan WGS i ddarparu mynediad i'r cyhoedd, bydd yn rhaid i chi ddweud wrthym am y darpariaethau rydych yn bwriadu eu gwneud ar gyfer hyn. Bydd yn rhaid i chi hefyd esbonio sut y bydd pobl yn gwybod bod croeso iddynt, er enghraifft, trwy daflenni neu erthyglau yn y papurau lleol. Disgwyl i chi godi arwyddion a fydd yn dangos yn glir bod croeso i bobl gerdded yn y coetir.

Rydym wedi llunio pecyn a fydd yn eich cynorthwyo i fodloni ein hanghenion. Mae ar gael, am ddim, i unrhyw un sydd â Chynllun Grant Coetiroedd (WGS) wedi'i gymeradwyo ac sy'n caniatáu mynediad i'w goetiroedd.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- **Arwyddion Croeso i Gerddwyr;**
- **Disgiau Croeso i Gerddwyr; a**
- **chyngor o natur gyffredinol, am ddim.**

Bydd defnyddio'r pecyn hwn yn eich cynorthwyo i fanteisio i'r eithaf ar groesawu cerddwyr i'r coedwigoedd. Bydd yn cyfeirio pobl at y mannau lle gallant fwynhau'r coetir i'r eithaf ac yn gadael i chi warchod y rhannau hynny sy'n llai addas. Os caiff pobl eu croesawu, efallai y byddant yn gallu deall mwy am eich rheolaeth ar y coetir.

Cewch arwyddion a disgiau "Croeso i Gerddwyr" y bydd eu heisiau arnoch, am ddim gennym. Os bydd yn well gennych ddefnyddio eich arwyddion eich hunan, bydd yn rhaid i ni gytuno eu bod yn addas.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Arwyddion Croeso i Gerddwyr ar gyfer Coetiroedd sy'n Bodoli Eisoes: Defnyddiwch wrth y prif fynedfeydd i'ch coetir

1 - i'w ddefnyddio ar byst (250mm x 100mm).
Noder fod pob mesur mewn milimedrau, gyda'r uchder yn gyntaf.

3 - fersiwn ddwyieithog i'w defnyddio yng Nghymru,
(250mm x 100mm).

2 - i'w ddefnyddio ar glwydi ac adeiladau,
(125mm x 265mm).

4 - fersiwn ddwyieithog i'w defnyddio yng Nghymru,
(125mm x 265mm).

Arwyddion Croeso i Gerddwyr ar gyfer Coetiroedd Newydd: Defnyddiwch yn y prif fynedfeydd i'ch coetir



5 - i'w ddefnyddio ar byst, (250mm x 100mm).

7 - fersiwn ddwyieithog i'w defnyddio yng Nghymru,
(250mm x 100mm).



6 - i'w ddefnyddio ar glwydi ac adeiladau,
(125mm x 265mm).

8 - fersiwn ddwyieithog i'w defnyddio yng Nghymru,
(125mm x 265mm).

Arwyddion Disg Croeso i Gerddwyr:
Defnyddiwch y rhain i ategu'r teimlad o groeso

9

10

9 & 10 - gosodwch hwy bob hyn a hyn ar hyd y llwybrau trwy'r coetir ac i dynnu sylw at fannau eraill i'w cyrchu, (75mm dia).

Bodloni ein gofynion sylfaenol

Bydd disgwyl i chi:

- **ddangos arwyddion Croeso i Gerddwyr yn y mannau y cytunwn iddynt;**
- **dangos disgiau Croeso i Gerddwyr i gefnogi'r arwyddion; a**
- **pharatoi map i ni sy'n dangos y cyfan o'r coetiroedd lle mae croeso i bobl a'r prif fannau mynediad.**

Pethau eraill y dylech feddwl amdanynt

Yn ôl y defnydd rydych yn ei ddisgwyl ac ystod y gweithgareddau y bydd pobl efallai'n cymryd rhan ynddynt, hwyrach yr hoffech rannu'ch coetir yn ardaloedd. Yn y ffordd hon, gallwch gyfeirio a lledaenu gweithgareddau drwy'r coetir (a thros amser) er mwyn ei gwneud yn llai tebygol y bydd gwrthdaro rhwng pob defnydd ohono. Mae'r arwyddion sylfaenol rydyn ni'n eu darparu yn ymwneud â cherdded. Rhaid i chi ystyried pa wybodaeth y mae ei angen ar bobl am weithgareddau eraill megis marchogaeth, seiclo a cherdded cŵn. Cysylltwch â'r awdurdod cynllunio lleol er mwyn gweld a oes angen caniatâd cynllunio arnoch.

Os ydych am gau rhan o'r goedwig o bryd i'w gilydd, efallai oherwydd gweithgareddau hamdden eraill neu oherwydd gwaith coedwigaeth, byddwn yn cytuno hyn â chi.

Faint o arwyddion a disgiau fydd eu hangen arnoch? Ble i'w gosod?

ARWYDDION CROESO I GERDDWYR

- Defnyddiwch hwy ar y prif fynedfeydd i'ch coetir.
- A yw'n goedwig sy'n bodoli ar hyn o bryd? Neu a ydych chi'n cynllunio coetir newydd? Mae arwyddion ar gyfer y ddau.
- Defnyddiwch yr arwyddion hirfain ar byst.
- Defnyddiwch yr arwyddion llydan ar glwydi ac adeiladau.
- Ceisiwch osgoi gosod yr arwyddion hyn ar Lwybrau Hawliau Tramwy rhag ofn i bobl eu camddeall - mae hawl gan gerddwyr fynd ar Lwybrau Hawliau Tramwy!

DISGIAU CROESO I GERDDWYR

- Defnyddiwch y rhain i gryfhau'r teimlad o groeso.
- Gosodwch hwy bob hyn a hyn ar hyd y llwybr drwy'r coetir.
- Defnyddiwch hwy i annog cerddwyr ar hyd y llwybrau rydych chi am iddynt eu defnyddio.
- Defnyddiwch hwy ymhle bynnag y mae angen tawelu meddwl cerddwyr eu bod ar y llwybr cywir neu fod croeso iddynt o hyd.
- Defnyddiwch y disgiau i dynnu sylw at fannau eraill i'w cyrchu.
- Os defnyddir Llwybr Hawl Tramwy i gysylltu llwybrau, gosodwch ddisgiau i'w ddangos.

Ffurflen Archebu

Pa arwyddion y mae arnoch eu hangen? Faint?

AR GYFER COETIROEDD SY'N BODOLI EISOES:

	CÔD	NIFER
Croeso i Gerddwyr! (hirfain)	**1**	
Croeso i Gerddwyr! (llydan)	**2**	
Croeso i Gerddwyr!/Cymraeg (hirfain)	**3**	
Croeso i Gerddwyr!/Cymraeg (llydan)	**4**	

AR GYFER COETIROEDD NEWYDD:

	CÔD	NIFER
Croeso i Gerddwyr! (hirfain)	**5**	
Croeso i Gerddwyr! (llydan)	**6**	
Croeso i Gerddwyr!/Cymraeg (hirfain)	**7**	
Croeso i Gerddwyr!/Cymraeg (llydan)	**8**	

DISGIAU:

	CÔD	NIFER
Croeso i Gerddwyr! (geiriau a logo)	**9**	
Croeso i Gerddwyr! (logo yn unig)	**10**	

Ar gyfer coetiroedd yng Nghymru, bydd eich arwyddion ffiniol yn cynnwys Cymraeg a Saesneg.
Mae'r disgiau ar gael yn Saesneg yn unig.

Enw:

Cyfeiriad:

Côd Post:

Ffôn:

Ffacs:

E-bost:

Wedi i chi lenwi'r ffurflen, anfonwch hi i swyddfa leol y Comisiwn Coedwigaeth: